	Maes Gwasanaeth	Cynnig	ARBEDION A GYNIGIR YN 2019/20 Fel y'u cytunwyd HF/01/18 Arbedion a Gynigiwyd £'000	Diwygiedig £'000
Gofal Cymdeithasol i Oedolion				
1	Cyfleoedd Dydd a Gwaith	Cam 3 o'r Adolygiad o Gyfleoedd Dydd a Gwaith er mwyn pennu'r gofynion a'r dull gweithredu ar gyfer gwasanaethau dydd arbenigol yn y dyfodol.	334	334
2	Cefnogi Gwaith Prosiect	Parhau â'r adolygiad o Gefnogi Gwaith Prosiect er mwyn sicrhau y darperir gwasanaeth priodol ac y datblygir amrywiaeth o ddewisiadau cost effeithiol i greu mwy o allu i gyflawni mewn gofal cartref. Er enghraifft, sicrhau bod mwy ar gael o ran Rhannu Bywydau a Thaliadau Uniongyrchol, a bod mwy o bobl yn eu defnyddio.	175	175
3	Taliadau Uniongyrchol	• adolygu'r gwasanaeth cymorth Taliadau Uniongyrchol a'i ail-gomisiynu – gweithio ar y cyd â Sir y Fflint – gan gynnwys cynrychiolwyr defnyddwyr y gwasanaeth • gweithio i sicrhau bod mwy o Gynorthwywyr Personol ar gael • Datblygu cerdyn i dalu ymlaen llaw.	125	125
4	Lleoliadau drud	Parhau â'r gwaith sydd eisoes yn digwydd i gefnogi pobl i ddod yn ôl i Wrecsam o leoliadau y tu allan i'r sir, adolygu lleoliadau drud a gwneud mwy o ddefnydd o fyw â chymorth fel dewis arall.	75	75
5	Gofal Iechyd Parhaus	Gweithredu meini prawf cymhwyso Gofal Iechyd Parhaus yn effeithiol.	724	724
6	Rhyddhau safle Greenacres	Trosglwyddo'r timau o staff sy'n gweithio yn Greenacres i adeilad arall.	68	0
7	Codi tâl am wasanaethau	• Dull gweithredu sy'n adennill yr holl gostau	156	156
8	Rhesymoli pecynnau gofal a chymorth.	Adnabod cyfleoedd i resymoli lefel y gwasanaethau a ddarperir: • Adroddiad i sefydlu pobl mewn lleoliadau â gwasanaethau ychwanegol • Adolygu lefelau'r gwasanaethau a ddarperir • Blaenoriaethu adolygiadau	50	50

9	Byw â Chymorth	1. Gofal Cymdeithasol i Oedolion i gadw gwell rheolaeth o leoedd gwag mewn tai byw â chymorth 2. Adolygu lefel yr anghenion y mae byw â chymorth yn eu bodloni a chanfod gwasanaethau eraill ar gyfer pobl y mae eu hanghenion yn fwy na'r lefel honno fel y gellir dosrannu cyllid yn deg wrth fodloni anghenion pobl.	250	250
			1,957	**1,889**
Gofal Cymdeithasol i Blant				
1	Lleoliadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal	Cyflwyno trefn newydd yn seiliedig ar ffioedd er mwyn cymell gofalwyr mewnol i ddarparu lleoliadau ar gyfer grwpiau mwy cymhleth o blant, gan gynnwys brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd. Rhagwelir y bydd hyn yn lleihau faint o arian mae'r Adran yn ei wario ar leoliadau maethu annibynnol.	10	10
2	Dod â'r Grantiau Cynaladwyedd Gofal Plant i ben	Cynigir rhoi'r gorau i roi cyfraniadau ariannol i ddarparwyr gofal plant eraill.	10	10
3	Dod â Hyfforddiant Gofal Plant wedi'i Ariannu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i ben	Cynigir rhoi'r gorau i gyllido hyfforddiant ar gyfer darparwyr gofal plant eraill. Mae'r Tîm Cymorth Busnes Gofal Plant yn cymorthdalu'r hyfforddiant a ddarperir i'r lleoliadau hyn ac yn llunio Cyfeiriadur Hyfforddiant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys cymorth cyntaf pediatrig, hylendid bwyd a diogelu.	10	10
			30	**30**
Addysg				
1	Effeithiolrwydd Addysg	Ail-lunio'r gwasanaeth cerdd / y ddarpariaeth	250	250
			250	**250**
Ysgolion				
1	Arbedion Cyffredinol	Ers nifer o flynyddoedd, mae'r Cyngor wedi gwarchod cyllidebau ysgolion yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae'r gwasgfeydd ar y Cyngor yn golygu nad yw hyn yn gynaliadwy mwyach, ac felly bydd disgwyl i'r ysgolion ariannu rhywfaint o'r twf mewn costau, gan gynnwys cyflogau a chwyddiant cyffredinol. Bydd unrhyw ostyngiad yng nghyllidebau ysgolion yn creu risg arwyddocaol o ran canlyniadau'r disgyblion ar adeg pan mae angen gwella'r sector uwchradd drwyddi draw.	**1,408**	**952**
			1,408	**952**
Yr Amgylchedd a Chynllunio				
1	Gwastraff Masnachol	Cynigir diwygio'r strategaeth codi tâl er mwyn sicrhau'r arbedion mwyaf posib a chydraddoli costau rhwng cwsmeriaid mewnol (y Cyngor) ac allanol.	20	20

2	Goleuadau stryd	Gosod goleuadau LED sy'n arbed ynni yn lampau stryd y Cyngor (ar hyn o bryd mae goleuadau LED mewn 2,300 o'r 11,000 o lampau sydd gan y Cyngor) er mwyn arbed ynni a chostau cynnal a chadw yn y dyfodol. Mae costau ynni'n cynyddu a bydd y cynnig buddsoddi i arbed hwn yn helpu i dalu'r costau hynny.	50	50
3	Diogelu'r Cyhoedd – rhannu'r gwasanaeth	Dull gwahanol o ddarparu'r gwasanaeth: rhannu'r gwasanaeth yn rhanbarthol/is-ranbarthol.	100	0
4	Cynllunio – Rheoli Datblygu	Rhannu'r gwasanaeth Rheoli Datblygu ag awdurdod(au) cyfagos.	38	0
			208	**70**
Tai a'r Economi				
1	Prydau Ysgol	Rhoi 5c ar ben pris prydau bwyd i fabanod i'w gwneud yr un fath â phrydau i blant iau.	7	7
2	Mwynau Borras	Cynyddu'r gyllideb incwm ar gyfer rhent newidiol.	10	10
3	Swyddfeydd Cyhoeddus	Ystyried gofynion llety canol y dref yn y dyfodol ac adnabod gofod sydd dros ben.	229	229
4	Canolfannau Cymunedol	Dymchwel y canolfannau cymunedol sydd ar ôl er mwyn arbed talu Ardrethi Annomestig Cenedlaethol.	11	11
5	Cefnogi Pobl	Dechrau darparu gwasanaethau wedi'u hariannu drwy grantiau yn unig.	100	100
6	Amgueddfeydd	Adolygu'r gwasanaeth gan sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chynhyrchu mwy o incwm.	10	10
7	Brecwast am ddim	Dechrau codi tâl am yr elfen gofal plant o amgylch oriau ysgol.	52	52
			419	**419**
Cyllid				
1	PIPS	Dileu swyddi gwag/lleihau capasiti.	40	40
2	PIPS	Lleihau nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu y mae'r Cyngor yn eu hariannu.	70	70
3	Refeniw	Dileu swyddi gwag/lleihau capasiti.	26	26
4	Uned Cynyddu Incwm	Cynhyrchu incwm ac adolygu lefelau gwasanaethau.	100	100
			236	**236**

Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid

1	Cyfreithiol	Cydweithio ag awdurdodau cyfagos ynghylch swyddi cyfreithiol.	34	34
2	TGCh, Gwasanaethau i Gwsmeriaid a Chyfathrebu	Dull Gwahanol o Ddarparu'r Gwasanaeth - adolygu dewisiadau eraill i wella effeithlonrwydd a chynaladwyedd Gwasanaeth TGCh y Cyngor.	86	86
			120	**120**
		CYFANSWM YR ARBEDION	**4,628**	**3,966**